Atebion – Gêm Bwrdd 3

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 14.

Dull

Ceir dis arbennig a bwrdd ar gyfer y gêm. Bydd angen paratoi'r dis ymlaen llaw (un ar gyfer pob grŵp o 3-5). Argymhellir pastio'r dis ar ddarn o gerdyn cyn plygu a gludo. Bydd angen dis rhifau hefyd.

Dylid rhoi copi o'r bwrdd a'r dis i bob grŵp. Bydd angen cownter ar bawb. Mae'r myfyriwr cyntaf yn taflu'r dis rhifau ac yn symud ei gownter. Mae'n darllen y cwestiwn yn y sgwâr yn uchel. Mae wedyn yn taflu'r dis geiriau. Os ydy'r dis yn rhoi ateb ieithyddol bosib i'r cwestiwn sydd newydd ei ofyn ('ydw/nac ydw', 'ydy/nac ydy' neu 'do/naddo'), mae'r dysgwr yn cael aros lle mae e. Os na, mae'n rhaid symud yn ôl un cam. Ymlaen wedyn at y myfyriwr nesaf. Os oes ansicrwydd, dylai'r myfyrwyr alw ar y tiwtor i ddyfarnu.

Mae'n werth i'r tiwtor ddarllen trwy'r cwestiynau ar y bwrdd i ddechrau i sicrhau bod popeth yn gyfarwydd.

Taflen y Tiwtor

Atebion - Gêm Bwrdd 3

Y Dechrau	Est ti ma's neithiwr?	Aethoch chi am bryd o fwyd?	Ddest ti i'r dosbarth mewn car?	Aethoch chi gyda Huw?	Gest ti hwyl neithiwr?
Dych chi wedi ymddeol?	Dych chi'n byw yn Llanidloes?	Dych chi'n ddi-waith?	Dych chi'n dod o Chelsea yn wreiddiol?	Dych chi'n dod o Gaerdydd?	Dych chi'n dod o Iwerddon?
Dych chi'n gweithio yn y dre?	Dych chi'n nabod Huw Trefor?	Dych chi'n nabod tad-cu Gareth?	Gaethoch chi frechdan i ginio?	Ddest ti ar y bws?	Est ti ma's gyda'r plant?
Gest ti sglodion i swper eto?	Ydy e'n byw ar fferm?	Ydy e'n byw yn y dre?	Ydy e'n dod o Harlech yn wreiddiol?	Ydy e'n gweithio fel ffermwr?	Ydy e'n gweithio gyda phlant?
Ydy e'n nabod Mrs Roberts?	Ydy hi wedi ymddeol?	Ydy hi'n byw mewn cartre?	Ydy hi'n byw yn y ddinas?	Ydy hi'n gweithio fel athrawes?	Ydy hi'n nabod Mr Hughes?
Y Diwedd	Aethoch chi i'r gwaith?	Dych chi'n gallu gyrru lori?	Est ti i weld y pennaeth?	Ddest ti dros y mynydd?	Dych chi'n meddwl yn Gymraeg?

Atebion - Gêm Bwrdd 3